# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Mae'r adroddiad canlynol yn Eitem Wybodaeth ar gyfer y Pwyllgor Craffu Addysg.

1 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg - Diweddariad Blynyddol.

# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG –
# EITEM GWYBODAETH

**TESTUN:** **DIWEDDARIAD BLYNYDDOL CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG**

**ADRODDIAD GAN:** **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL - ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 I adrodd i aelodau ar ddiweddariad blynyddol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

## 2. CRYNODEB

2.1 Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i Gynllun Strategol drafft y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 ar gyfer ymgynghoriad yn ystod tymor yr Hydref. Nod y cynllun yw cyrraedd y rheoliadau newydd a'r targed o 26-32% erbyn 2032. Er bod cyfradd ymateb unigolion yn gymharol isel, cafwyd ymateb da gan randdeiliaid sefydliadol allweddol i gefnogi datblygiad cynlluniau gweithredu yn y dyfodol.

2.2 O'r 15 ymateb, roedd 13 yn gefnogol ar y cyfan i'n gwybodaeth a'n gweithredoedd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gyda 2 yn erbyn y cynigion. Fodd bynnag, nododd 2 a oedd yn gefnogol ar y cyfan hefyd eu bod yn teimlo y byddai'n well tyfu'n organig ac annog y nifer sy'n manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac y gallai'r targed i orfodi cynnydd yn y ddarpariaeth gael effaith negyddol ar y Gymraeg.

2.3 Un o'r meysydd allweddol i'w gryfhau yw'r gwaith hyrwyddo yn y cynllun cyfathrebu. Er nad ydym wedi cynnwys camau gweithredu penodol ychwanegol yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, rydym wedi ymrwymo i fanylu ar y camau hyn mewn cynllun cyfathrebu mwy penodol a fydd yn rhan o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, ac yn cael ei gyflawni drwy ddau is-grŵp o dan Fforwm Addysg Gymraeg: un o safbwynt sefydliadol ac un o lais y bobl.. Bydd angen i'r cynllun cyfathrebu 10 mlynedd ystyried cerrig milltir blynyddol i gefnogi'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n manteisio ar y ddarpariaeth ar sail leol, data ymatebol ac astudiaethau achos i ddeall y darlun cyfredol yn ogystal â diweddariadau newyddion ar bob prosiect o dan Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sy'n dangos yn glir sut maen nhw'n cefnogi'r targed uchelgeisiol o 26-32% erbyn

2032.

2.4 Maes allweddol arall i'w gryfhau oedd y defnydd o ddata. Roedd angen eglurder ar wahanol ddata o wahanol ffynonellau data, yn ogystal â data mwy lleol i ddeall cyflenwad a galw a galluogi i waith datblygu gael ei nodi.

2.5 Mae angen datblygu'r polisi trochi Cymraeg hwyrddyfodiaid yn dilyn yr ymchwil gwmpasu sydd ar y gweill ar hyn o bryd gydag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a'i hysgolion cynradd clwstwr. Bydd yr ymchwil yn cefnogi datblygiad y polisi trwy brosesau llywodraethu priodol yn ystod 2022 a gweithredu darpariaeth drochi hwyrddyfodiaid yn y dyfodol.

2.5 Mae angen camau mwy manwl i wella cyfraddau trosglwyddo o Gylchoedd Meithrin i Feithrinfeydd Ysgol ac o CA4 i'r Chweched Dosbarth. Mae'r ddau yn hollbwysig ac mae angen deall dewisiadau a chefnogi gwneud penderfyniadau gydag opsiynau deniadol sy'n dileu rhwystrau canfyddedig.

2.6 Mae angen cefnogi dysgwyr Cymraeg. Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu Cymraeg mewn dosbarthiadau oedolion sy'n dysgu yn eu cymunedau ac ar-lein ac arwain at gymwysterau i gefnogi ein symudiad ar hyd y continwwm ieithyddol. Mae angen deall taith ein dysgwyr Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a sut rydyn ni'n cefnogi hyn gyda'r set ddata berthnasol. Cafodd awgrymiadau arloesol eu cyflwyno i ddod â myfyrwyr Safon Uwch Cymraeg o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i ystafelloedd dosbarth ysgolion cynradd Cymraeg i wella eu defnydd o'r Gymraeg yn ei chyd-destun a hefyd i fod yn gatalydd i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i'r gweithlu Addysg.

2.7 Cydnabyddir bod datblygu gweithlu sy'n siarad Cymraeg yn un o'r meysydd mwyaf heriol ar gyfer blaenoriaeth frys. Mae angen a gweithio ar lefel genedlaethol a lleol i gefnogi datblygiad llwybrau gyrfa hygyrch ac arloesol i'r gweithlu Addysg ar draws yr holl bartneriaid gan gynnwys y Coleg Cymraeg. Bydd angen i'r gwaith nodi sut rydyn ni hefyd yn gweithio gyda'n hysgolion cyfrwng Saesneg i ddatblygu ein gweithlu i ddod yn ddysgwyr Cymraeg hyderus wrth symud ar hyd y continwwm ieithyddol. Bydd y maes canlyniad hwn yn gofyn am grŵp gorchwyl penodol i symud y gwaith yn ei flaen a chyrraedd ein targed uchelgeisiol.

2.8 Bydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022. Bydd y targedau uchelgeisiol yn cael eu hatgyfnerthu drwy'r cynlluniau cyflawni manwl a fydd â thargedau interim gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r awgrymiadau, a byddan nhw'n eistedd o dan y cynllun 10 mlynedd. Bydd y cynllun cyfathrebu 10 mlynedd hefyd yn cefnogi'r gwaith hyrwyddo sydd ei angen i gyrraedd pob un o'r targedau interim.

## 3. ARGYMHELLION

3.3 Mae'r aelodau'n nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gasglwyd ac yn cytuno ar y camau gweithredu dilynol sydd eu hangen i gyflawni'r uchelgeisiau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032.

## 4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

4.1 Gwella gweithrediad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032.

## 5. YR ADRODDIAD

5.1 Cafodd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 drafft ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn ystod tymor yr Hydref. Nod y cynllun yw cyrraedd y rheoliadau newydd a'r targed o 26-32% erbyn 2032. Derbyniwyd cyfanswm o 15 o ymatebion (13 cyn y dyddiad cau a 2 ychydig wedi hynny), 9 yn Saesneg, 5 yn Gymraeg ac 1 yn ddwyieithog. Dadansoddwyd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a chasglwyd themâu a'u cynnwys yng nghorff yr adroddiad hwn.

5.2 Roedd 13 ymateb yn gefnogol ar y cyfan bod gan ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ddigon o wybodaeth a chamau gweithredu tuag at gyflawni ein huchelgais, er bod dau ymatebwr yn teimlo y byddai'n well canolbwyntio ar ieithoedd tramor. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid cryfhau ein cynllun mewn meysydd canlyniad penodol gyda manylion er mwyn cyrraedd y targed. Nid oedd 2 o'r ymatebwyr yn cytuno bod digon o wybodaeth a thargedau ac yn teimlo bod 'problemau mwy fel iechyd meddwl, ymddygiad ac yn fwy penodol dal i fyny…' Fodd bynnag, nododd 2 a oedd yn gefnogol ar y cyfan, hefyd y byddai'n well tyfu'n organig ac annog y nifer sy'n manteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac y gallai'r targed i orfodi cynnydd yn y ddarpariaeth gael effaith negyddol ar y Gymraeg.

5.3 Ymatebwyr o sefydliadau:

- RhAG
- Comisiynydd y Gymraeg
- Estyn
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Mudiad Meithrin

5.4 Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid cryfhau'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg drwy ragor o fanylion am gynlluniau i hyrwyddo'r Gymraeg gan gynnwys cysylltu â Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg a gwaith a rennir rhwng Fforwm yr Iaith Gymraeg a'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg . Er nad ydyn ni wedi cynnwys camau gweithredu penodol ychwanegol yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, rydyn ni wedi ymrwymo i fanylu ar y camau hyn mewn cynllun cyfathrebu mwy penodol a fydd yn rhan o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Ers hynny mae dau is-grŵp wedi'u sefydlu gydag aelodau o'r ddau brif fforwm: un o safbwynt sefydliadol ac un i gynrychioli llais y bobl. Mae'r ddau grŵp wedi'u sefydlu i ddechrau ar y gwaith cwmpasu ar ddeunydd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth gyfredol a sut rydyn ni'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ac nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol. Mae gan Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg gamau gweithredu lefel uchel sy'n cael eu trosi'n gerrig milltir blynyddol a lleol i adlewyrchu anghenion y Fwrdeistref. Er bod cylch gwaith cychwynnol i gwmpasu a gwella gwybodaeth bresennol ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifanc, ein nod yw parhau â hyn gan ganolbwyntio ar hysbysu dewisiadau rhieni, astudiaethau achos, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, a gwaith hyrwyddo wedi'i dargedu i gyd-fynd â datblygu neu ehangu ysgol/darpariaeth leol. Rydyn ni'n cydnabod hwn fel maes gwaith sylweddol ac felly bydd y ddau grŵp yn parhau i fod yn is-grŵp o'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg ac nid yn grŵp gorchwyl a gorffen penodol. Rhagwelir y bydd y grŵp hwn yn llywio darpariaeth dros gyfnod y 10 mlynedd a bydd ganddo gynllun gwaith manylach gyda cherrig milltir blynyddol yn y cynllun cyfathrebu 10 mlynedd. Un o'r cysylltiadau allweddol rhwng Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a

Strategaeth y Gymraeg yn ogystal â dull gweithredu rhanbarthol fydd trwy'r swyddog hybu'r Gymraeg rhanbarthol newydd.

5.5 Ail thema a rennir yw setiau data mwy lleol i ddeall y galw a'r cyflenwad, gan alluogi dull mwy ymatebol lleol o ddatblygu darpariaeth. Dylid datblygu'r set ddata gyfnewidiol leol hon i gadw data cyhoeddedig byw wedi'u diweddaru ac yn y fformatau sydd eu hangen i gefnogi ein sefydliadau partner niferus i ddatblygu darpariaeth ymatebol. Mae'r set ddata fanwl fwy lleol hon wedi'i hamlygu yn ôl yr angen ar ein tudalen we Cymraeg mewn Addysg a bydd yn rhan o ymarfer cwmpasu cychwynnol yr is-grwpiau i ddeall beth sydd ar gael, yn ddefnyddiol, a sut i gyflwyno'r data hwnnw mewn ffordd ystyrlon i'r holl randdeiliaid. Mae'n debygol y bydd angen gwybodaeth leol arnom yn ôl y math o ddarpariaeth, cyfraddau pontio, argaeledd, lleoedd dros ben, y nifer sy'n manteisio arnyn nhw, a bydd angen i'r is-grŵp lywio sut rydyn ni'n diffinio'r data ac yn dadansoddi anghenion demograffig. Bydd angen i ni hefyd ddiffinio pa setiau data sy'n gyflawn ac felly y dylid dibynnu arnyn nhw. Mae rhai setiau data yn cynnwys gwybodaeth rannol a phan gânt eu cwblhau gan ddarpariaethau maent yn cynnwys gwallau iaith a all wneud y data yn her i'w ddefnyddio'n ddibynadwy. Mae gwahaniaethau ar hyn o bryd yn y setiau data a gyhoeddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru lle mae setiau data wedi'u casglu o'r asesiad blynyddol (SAS) sydd â chyfraddau dychwelyd o lai na 100% ac sydd hefyd â disgrifiadau iaith anghywir oherwydd gwall dynol. Fodd bynnag, mae timau Gofal Plant o fewn yr Awdurdod Lleol yn cadw data ar yr holl ddarpariaethau gofal plant cofrestredig gyda manylion iaith eu lleoliad a faint o leoedd y maen nhw wedi cofrestru ar eu cyfer yn ôl y math gwahanol o ddarpariaeth. Mae sefydliadau ymbarél hefyd yn cadw manylion eu haelodau ond nid yw'n ofynnol i bob lleoliad gofal plant fod yn aelod o sefydliad, felly mae hyn yn codi set ddata anghyflawn ychwanegol. Er bod setiau data defnyddiol a all wella'r darlun, mae hon yn dirwedd gymhleth ac felly efallai y byddai data cyflenwad lleol yn well na defnyddio setiau data a gasglwyd ar gyfer y fwrdeistref gyfan.

5.6 Croesawyd y rhaglen gyfalaf a datblygiad y ddarpariaeth, ond mae angen diweddariadau hygyrch ar ein tudalen we i ddangos sut mae'r lleoedd ychwanegol a grëwyd yn cael eu defnyddio ar y cyd â'r cynllun cyfathrebu 10 mlynedd a'r strategaeth hyrwyddo leol ar gyfer yr ardal honno. Dylai'r dudalen we gynnwys newyddion a diweddariadau dilyniant a hefyd diweddaru'r lleoedd sydd ar gael a'r nifer sy'n eu defnyddio wedyn i ddangos y sefyllfa leol.

5.7 Mae rhai ymatebwyr wedi nodi datblygiad polisi hwyrddyfodiaid ffurfiol. Mae'r gwaith cwmpasu cychwynnol ar y gweill mewn prosiect gydag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a'r Ysgolion Cynradd yn ei chlwstwr. Yn dilyn y gwaith cwmpasu byddwn ni'n deall beth fyddai ei angen er mwyn datblygu darpariaeth drochi Cymraeg hwyrddyfodiaid ar draws ein bwrdeistref. Bydd yr ymchwil yn sail i gynigion ar gyfer darpariaeth drochi hwyrddyfodiaid i'w cyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli Addysg a thrwy strwythurau llywodraethu priodol i allu buddsoddi yn hyn wrth symud ymlaen.

5.8 Mae angen camau mwy manwl i wella cyfraddau trosglwyddo o Gylchoedd Meithrin i Feithrinfeydd Ysgol ac o CA4 i'r Chweched Dosbarth. Mae'r ddau yn hollbwysig ac mae angen deall dewisiadau a chefnogi gwneud penderfyniadau gydag opsiynau deniadol sy'n dileu rhwystrau canfyddedig.

5.9 Un o'r meysydd sydd angen ei gryfhau yw sut rydyn ni'n sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael eu cefnogi i ddysgu Cymraeg. Cafwyd sylwadau ar ddosbarthiadau dysgwyr Cymraeg i oedolion mewn cymunedau lleol neu ar-lein ac yn arwain at

gymwysterau a fyddai'n cefnogi ein symudiad tuag at y continwwm ieithyddol. Cafwyd awgrymiadau hefyd ar gyfer atgyfnerthu'r defnydd o Gymraeg myfyrwyr Safon Uwch mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i gael cyfleoedd i'w defnyddio mewn Ysgolion Cynradd cyfrwng Cymraeg, a allai fod yn ffordd arloesol o gynnig cyfleoedd gweithle/gyrfa yn y dyfodol a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ymuno â'r gweithlu addysgu. Mae angen deall y data sydd ar gael ar gyfer y rhai sy'n astudio Cymraeg TGAU mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg gyda'r dirwedd newidiol mewn setiau data.

5.10 Datblygu'r gweithlu oedd y maes pryder cryfaf i'r holl ymatebwyr. Roedd dealltwriaeth bod angen i lawer o'r gwaith hwn ddigwydd ar lwyfan datblygu cenedlaethol gan ddefnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael a gweithio gyda'r holl bartneriaid gan gynnwys y Coleg Cymraeg, ein colegau lleol, chweched dosbarth a phrifysgolion. Fodd bynnag, mae hefyd angen hyrwyddo a chryfhau'r llwybr i ddysgwyr symud tuag at ymuno â'r gweithlu addysgu. Mae hwn yn faes sy'n peri pryder yn arbennig ac mae angen cofleidio pob syniad arloesol i wneud cynnydd yn y symudiad at ddod â rhagor o siaradwyr Cymraeg neu ddysgwyr Cymraeg i'r gweithlu a'u cefnogi i deimlo'n hyderus i ddefnyddio'u hiaith mewn cyd-destun Addysgol. Yn ogystal, bydd angen gwneud gwaith i nodi sut rydyn ni'n gweithio gyda'n hysgolion cyfrwng Saesneg i ddatblygu ein gweithlu i ddod yn ddysgwyr Cymraeg hyderus wrth symud ar hyd y continwwm ieithyddol. Mae datblygiad ein gweithlu sy'n siarad Cymraeg yn thema drawsbynciol a fydd angen grŵp gorchwyl a gorffen penodol i archwilio beth sy'n bosibl, lle mae angen cryfhau'r cysylltiadau â sefydliadau neu fudiadau perthnasol, yn ogystal â sut maen nhw'n cysylltu â'r grwpiau hyrwyddo i sicrhau bod y llwybr ar gyfer myfyrwyr a dysgwyr aeddfed yn glir ac yn hygyrch.

5.11 **Casgliad**

Bydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022. Bydd y targedau uchelgeisiol yn cael eu hatgyfnerthu drwy'r cynlluniau cyflawni manwl a fydd â thargedau dros dro gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r awgrymiadau a fydd yn eistedd o dan y cynllun 10 mlynedd. Bydd y cynllun cyfathrebu 10 mlynedd hefyd yn cefnogi'r gwaith hyrwyddo sydd ei angen i gyrraedd pob un o'r targedau interim.

## 6. RHAGDYBIAETHAU

6.1 Does dim rhagdybiaethau yn yr adroddiad hwn.

## 7. CRYNODEB O'R ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

7.1 Gan mai er gwybodaeth yn unig y mae'r adroddiad hwn, does dim angen Asesiad Effaith Integredig wedi'i ddiweddaru. Fodd bynnag, cwblhawyd Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn flaenorol.

## 8. GOBLYGIADAU ARIANNOL

8.1 Does dim goblygiadau ariannol penodol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

9.1 Does dim oblygiadau personél penodol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 10. YMGYNGHORIADAU

10.1 Does dim ymatebion i'r ymgynghoriad sydd ddim wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

## 11. PŴER STATUDOL

11.1 Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019

Awdur: Sarah Mutch, Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar a Phartneriaethau,
mutchs@caerffili.gov.uk <mailto:mutchs@caerphilly.gov.uk>

Ymgynghoreion: Christina Harrhy, Prif Weithredwr
Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Dave Street, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol
Y Cynghorydd R.Whiting, Aelod Cabinet dros Ddysgu ac Chyflawniad
Y Cynghorydd Teresa Parry, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Y Cynghorydd Carol Andrews, Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Steve Harris, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog A151 Dros Dro
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg
Sue Richards, Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg
Sarah Ellis, Arweinydd ar gyfer Cynhwysiant ac ADY
Paul Warren, Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion
Jane Southcombe, Rheolwr Gwasanaethau Ariannol
Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi - Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori
Rob Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro
Ros Roberts, Swyddog Gwella Busnes